
Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Cynllun Gweithredu

## Perthnasoedd a Rhwydweithiau Rhanbarthol sy'n cael Blaenoriaeth 2020-2025



# Cynnwys


1. Cyflwyniad a Chyd-destun 3

2. Llydaw 5

3. Gwlad y Basg 8

4. Fflandrys 11

5. Québec 13

6. Rhwydweithiau Ewropeaidd a Rhyngwladol 15

7. Casgliad 17


© Hawlfraint y Goron 2020
WG41045 ISBN digidol 978-1-80082-302-0

# Cyflwyniad a Chyd-destun

Mae'r Strategaeth Ryngwladol, a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2020, yn nodi bwriad Llywodraeth Cymru i flaenoriaethu ei pherthynas â thri rhanbarth Ewropeaidd (Llydaw, Gwlad y Basg a Fflandrys) a chyda nifer o rwydweithiau Ewropeaidd a rhyngwladol. Fe'n hymrwymodd ni i ddatblygu cynllun gweithredu i ddatblygu ein perthnasoedd â phartneriaid Ewropeaidd a phartneriaid eraill sy'n cael blaenoriaeth er budd economaidd, diwylliannol a chymdeithasol pobl Cymru.

Mae'r perthnasoedd hyn, sy'n seiliedig ar werthoedd, diddordebau ac uchelgeisiau polisi cyffredin, yn bwysicach nag erioed ers i'r DU adael yr UE. Maent hefyd yn bwysig yng nghyd-destun COVID-19, lle mae llywodraethau rhanbarthol wedi chwarae rhan hanfodol mewn dysgu ar y cyd ac wrth ddelio â'r pandemig. Mae'r cynllun gweithredu hwn hefyd yn ymdrin â'n perthynas gynyddol â thalaith Québec, a ategwyd yn ddiweddar gan lofnodi'r Datganiad o Fwriad ym mis Chwefror 2020.

Er bod y cynllun gweithredu hwn yn canolbwyntio ar nifer fach o ranbarthau sy'n cael blaenoriaeth, nid yw hynny'n golygu y byddwn yn anwybyddu rhai o'r perthnasoedd hirsefydlog sydd eisoes gennym gydag amryw o ranbarthau ar draws y byd, nac ychwaith yn golygu na fyddwn yn agored i ddatblygu perthnasoedd newydd, pan fo rheswm amlwg dros wneud hynny. Bydd canolbwyntio ein hymdrechion ar nifer fach o ranbarthau a rhwydweithiau yn manteisio i'r eithaf ar ein gallu i gefnogi tair uchelgais graidd y Strategaeth:

- Codi proffil Cymru ar y llwyfan rhyngwladol;
- Tyfu'r economi drwy gynyddu allforion a denu buddsoddiadau o'r tu allan; a
- Sefydlu Cymru fel cenedl sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang.

Mae Cymru'n gyfoethog o ran diplomyddiaeth gyhoeddus ac asedau cymell tawel ac yn y cynllun drwyddo draw mae pwyslais arbennig ar gydweithredu diwylliannol, sy'n gallu agor drysau a helpu i hybu proffil Cymru. Mae ein gwaith arloesol ym meysydd celf, iechyd a llesiant hefyd o ddiddordeb i'n partneriaid rhanbarthol.

Yn ogystal, mae perthnasoedd rhanbarthol strategol ac ymgysylltu â rhwydweithiau Ewropeaidd a rhyngwladol yn hwyluso ein gallu i wneud y canlynol:

- Rhannu ein profiadau, meincnodi ein perfformiad a dysgu gan eraill, gan helpu i wella'r broses o lunio a gweithredu polisïau ar y llwyfan domestig;
- Cymryd rhan mewn prosiectau cydweithredol;
- Hyrwyddo agenda gyffredin gyda chenhedloedd a rhanbarthau tebyg ac adeiladu partneriaethau ar gyfer Agenda 2030 i gefnogi ymdrechion ei gilydd i gyflawni Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig;
- Cynnal cysylltiadau â Sefydliadau'r UE drwy berthnasoedd rhanbarthol, a fydd o werth beth bynnag fo'r berthynas rhwng yr UE a'r DU yn y dyfodol;
- Cefnogi economi Cymru drwy alluogi busnesau yng Nghymru i dyfu eu hallforion, i gefnogi'r Cynllun Gweithredu Allforio, yn ogystal â chreu cyfleoedd i gwmnïau fuddsoddi yng Nghymru;
- Ymestyn, ymgysylltu a chodi ein proffil mewn rhanbarthau a chenhedloedd eraill drwy rwydweithiau a digwyddiadau diwylliannol.

Mae pob perthynas ranbarthol yn wahanol o ran aeddfedrwydd a chysondeb eu buddiannau. Fodd bynnag, mae rhai meysydd o ffocws cyffredin, megis ymrwymiad i egwyddorion amrywiaeth, cynaliadwyedd ieithyddol, a seiberddiogelwch.

## Y Dull Gweithredu

Mae'r Strategaeth Ryngwladol yn cydnabod nad cyfrifoldeb llywodraeth yn unig yw cysylltiadau rhyngwladol, ac mae'n galw ar sefydliadau a chymdeithas ddinesig i gydweithio i ddarparu dull cydlynol o weithredu. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gydag amrywiaeth eang o sefydliadau yng Nghymru i gefnogi ein partneriaethau rhanbarthol. Yn benodol, mae'r Senedd yn weithgar yn rhyngwladol ac mae ganddi berthynas gref a gwerthfawr â llawer o rwydweithiau rhyngwladol ac Ewropeaidd megis Cynhadledd Cynulliadau Deddfwriaethol Rhanbarthol Ewrop a gyda'i chwaer-seneddau ledled y byd, gan gynnwys Fflandrys a Québec.

Mae ymgysylltiad Cymru yn y dyfodol, yn ffurfiol ac yn anffurfiol, â Senedd Ewrop, Pwyllgor y Rhanbarthau, y Pwyllgor Economaidd a Chymdeithasol a Sefydliadau eraill yr Undeb Ewropeaidd y tu allan i gylch gwaith y cynllun hwn, a bydd angen ei ystyried yn fanwl unwaith y bydd perthynas y DU a'r UE yn y dyfodol yn ddigon sefydlog a gweithredol. Serch hynny, bydd gwerth i hyn yn sicr wrth gynnal rhywfaint o ddylanwad a chyswllt â chynrychiolwyr gwleidyddol o sefydliadau'r UE a chyda rhanbarthau Ewropeaidd eraill.

Bydd y cynllun hwn yn ystyried pob un o'r rhanbarthau sy'n cael blaenoriaeth, gan ddisgrifio'r cydweithredu presennol a nodi amcanion tymor byr (blwyddyn) a thymor canolig (hyd at ddiwedd 2025). Mae'r partneriaethau â Llydaw, Gwlad y Basg a Québec yn aeddfetach na'r bartneriaeth â Fflandrys oherwydd y cytundebau ffurfiol sydd eisoes ar waith. Mae'r dull rydym yn ei ddefnyddio i ddatblygu Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth gyda Fflandrys hefyd yn wahanol gan y bydd yn canolbwyntio ar un sector i ddechrau.

Mae ein cyfranogiad mewn rhwydweithiau rhyngwladol yn ein galluogi i gynnal cysylltiadau cryf ag amrywiaeth eang o ranbarthau eraill fel Catalonia, taleithiau'r Iseldiroedd neu'r rhanbarthau Nordig. Mae ein swyddfeydd yn yr Almaen yn canolbwyntio ar dri Länder – Gogledd Rhine-Westphalia, Baden-Württemberg a Bafaria. Mae ein swyddfeydd rhyngwladol yn chwarae rhan allweddol yn y gwaith o ddatblygu perthnasoedd rhanbarthol.

# 01 Cyflwyniad a Chyd-destun

Un her i'n hymgysylltiad yn y dyfodol yw mynediad at raglenni Ewropeaidd yn y dyfodol. Mae'r rhain wedi chwarae rhan sylfaenol yn y gwaith o gefnogi cydweithredu rhwng rhanbarthau Ewrop, gan gynnwys ein cydweithrediad â'r rhanbarthau blaenoriaeth hyn, ers datganoli. Cydnabyddir Cymru am effaith ei hymchwil a'i lefelau uchel o gydweithredu rhyngwladol, ac rydym yn croesawu'r ffaith bod y DU yn archwilio opsiynau ar gyfer cymryd rhan yn Horizon Europe, a ddylai gynnig cyfleoedd sylweddol ar gyfer cydweithredu o ran ymchwil ac arloesi yn y dyfodol. Mae dysgwyr, staff a sefydliadau o Gymru wedi elwa'n fawr o raglen symudedd Erasmus. Cred Llywodraeth Cymru y dylai Llywodraeth y DU fod yn trafod cyfranogiad llawn yn y rhaglen gyfan gyda'r UE, yn hytrach na'r driniaeth rannol sydd wedi ei gosod ym mandad negodi Llywodraeth y DU. Fodd bynnag, mae Llywodraeth y DU wedi datgan na fydd bellach yn cymryd rhan mewn rhaglenni fel Cydweithredu Tiriogaethol Ewropeaidd (CTE) ac Ewrop Greadigol. Ynghyd â'r Gweinyddiaethau Datganoledig eraill, rydym yn herio safbwynt Llywodraeth y DU, yn enwedig ar CTE gan y byddai'n peryglu ein perthynas ag Iwerddon, sydd wedi'i chryfhau drwy amrywiol lefelau rhaglen drawsffiniol Iwerddon Cymru, a chyda rhanbarthau ledled Ewrop drwy ymgysylltu â rhaglenni CTE trawswladol a rhyngranbarthol. Byddwn yn archwilio camau lliniaru ac yn archwilio sut i gymell sefydliadau yng Nghymru i gydweithio â phartneriaid yn y rhanbarthau a'r gwledydd sy'n cael blaenoriaeth. Mae ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar y fframwaith buddsoddi rhanbarthol yn y dyfodol[1] yn cynnig mwy o rôl i weithredu rhyngwladol a thrawsffiniol.

Mae'r cynllun gweithredu hwn yn nodi sut rydym yn gwireddu ein gweledigaeth dros y pum mlynedd nesaf. Mae'n rhan o gyfres o gynlluniau gweithredu sy'n rhan o'r Strategaeth Ryngwladol, gan gynnwys y Cynllun Gweithredu ar Allforio, y Cynllun Cysylltiadau Rhyngwladol drwy Ddiplomyddiaeth Gyhoeddus a Chymell Tawel, y Cynllun Gweithredu ar Ymgysylltu â Chymry ar Wasgar a'r Cynllun Gweithredu ar Gymru ac Affrica. Mae angen ymdrechion cydategol a chyson ledled yr holl feysydd hyn er mwyn i ni allu cael effaith wirioneddol.

**Ein Gweledigaeth yw:**

Hyrwyddo Cymru fel cenedl gydweithredol sy'n edrych tuag allan, gan ddatblygu perthnasoedd a fydd yn codi ein proffil ar y llwyfan byd-eang i gyflawni ein Strategaeth Ryngwladol.

**Ein Cenhadaeth yw:**

- Cryfhau'r berthynas â'n rhanbarthau sy'n cael blaenoriaeth gan adeiladu ar Femoranda Cyd-ddealltwriaeth a Datganiadau o Fwriad sy'n bodoli eisoes.
- Gweithio gyda rhanbarthau lle rydym yn rhannu buddiannau ar y cyd yng nghyd-destun ymatebion i COVID-19, gan rannu gwybodaeth am effaith y feirws ac archwilio cyfleoedd ar gyfer y cyfnod adfer.
- Sefydlu partneriaethau gyda sefydliadau ledled Cymru i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r cynllun gweithredu hwn.

[1] Fframwaith Buddsoddi Rhanbarthol yng Nghymru (llyw.cymru/fframwaith-buddsoddi-rhanbarthol-yng-nghymru)

# Llydaw

## Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth

Cafodd ein perthynas â Llydaw, sydd wedi'i gwreiddio yn ein treftadaeth ddiwylliannol ac ieithyddol gyffredin, ei ffurfioli gyntaf yn 2004. Adnewyddwyd y Memorandwm yn 2011 ac eto yn 2018. Er bod cysylltiadau diwylliannol ac addysgol, cysylltiadau rhwng pobl, cyfnewid sgiliau a chysylltiadau ieithyddol yn parhau i fod wrth wraidd y berthynas hon, rydym hefyd yn archwilio cyfleoedd economaidd lle mae ein buddiannau'n cydweddu, gan gynnwys seiberfwlio, bwyd-amaeth ac ynni'r môr. Mae swyddfa Llywodraeth Cymru ym Mharis yn datblygu cyfleoedd economaidd sy'n gweithio gyda Chyngor Rhanbarthol Llydaw, Llywodraeth y DU ac asiantaethau Llydewig sy'n gyfrifol am ddatblygu a masnachu rhyngwladol a buddsoddi, Bretagne Development International a Bretagne Commerce International.

## Cydweithrediad

**Seiberddiogelwch**

Yn dilyn ymweliad gan y cyn-Brif Weinidog â Chanolfan Ragoriaeth Seiber Ffrainc yn Rennes yn 2018, mae cyswllt cryf wedi datblygu rhwng ein sectorau. Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, rydym wedi hwyluso cyfranogiad clwstwr “Seiber Cymru” yn Wythnos Seiber Ewrop, sy'n digwydd yn Rennes bob mis Tachwedd. Mae hyn wedi arwain at gymryd rhan yn Sefydliad Seiberddiogelwch Ewrop[2], perthynas rydym yn awyddus i'w chryfhau. Rydym hefyd yn archwilio seiber-bartneriaeth newydd rhwng prifysgolion Cymru a Llydaw, a fydd yn arwain at ymchwil ar y cyd a chyfnewid myfyrwyr rhwng ein sefydliadau addysg uwch.

**Bwyd-amaeth**

Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi busnesau bwyd a diod Cymru i weithio gyda'u cymheiriaid yn Llydaw ac mae wedi comisiynu ymweliad astudio peilot ar gyfer dirprwyaeth o fusnesau a'r byd academaidd yng Nghymru i gymryd rhan mewn tridiau o gyfleoedd dysgu a rhwydweithio. Bydd yr astudiaeth yn canolbwyntio ar gyfleoedd sy'n bodoli drwy ddefnyddio carbon deuocsid a dŵr gwastraff (o weithgynhyrchu bwyd a diod, gan gynnwys bragdai a llaeth) gydag algâu i greu cynhyrchion/ffrydiau ariannu ychwanegol. Bydd y cynllun peilot yn adeiladu ar ein perthynas â'r Cyngor Rhanbarthol a'r bartneriaeth a ddatblygwyd gyda Valorial, clwstwr cystadleurwydd bwyd-amaeth Llydaw. Mae hyn yn adeiladu ar Ardal CTE yr Iwerydd a phrosiectau a ariennir gan Ogledd Orllewin Ewrop lle mae Llydaw a Chymru yn bartneriaid: prosiect Ecosystem Bwyd Iach yr Iwerydd (AHFES) a phrosiect ValuSect. Nod y rhain, yn y drefn honno, yw cefnogi busnesau bwyd a diod i fod yn arloesol ym maes cynnyrch bwyd iachach a phrosesu pryfed fel adnodd bwyd amgen.

**Diwylliant ac Iaith**

Ategir y bartneriaeth ddiwylliannol rhwng Cymru a Llydaw gan y cytundeb partneriaeth parhaus rhwng Cerddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC a'r Orchestre Symphonique de Bretagne, sydd wedi comisiynu a chyd-gynhyrchu cyngherddau; yn fwyaf diweddar cyngerdd Dydd Gŵyl Dewi 2020 BBC NOW. Mae hyn yn dilyn cyngerdd cynharach ar y cyd yn Rennes a rhaglen ar y cyd o gyfnewidfeydd a gweithdai staff. Cefnogodd Cyngor Prydeinig Cymru y berthynas drwy ei Rhaglen Symudedd Ewrop yng Nghymru.

Mae'r Ŵyl Ryng-Geltaidd yn Lorient yn llwyfan rhyngwladol i artistiaid o Gymru. Mae Cymru wedi bod yn wlad anrhydeddus yr Ŵyl sawl tro. 2020 oedd 50 mlwyddiant yr Ŵyl i fod, a byddai wedi cynnwys yr uwchgynhadledd Geltaidd gyntaf ar gyfer arweinwyr gwleidyddol y rhanbarthau a'r cenhedloedd Celtaidd. Mae'r Ŵyl wedi'i gohirio tan 2021.

Ymwelodd yr Arlywydd Loïg Chesnais Girard â Chymru gyda dirprwyaeth ddiwylliannol ym mis Mawrth 2020 i ailddatgan ymrwymiad Llydaw i Gymru yng nghyd-destun ôl-Brexit a datblygu partneriaethau diwylliannol cynaliadwy a gwydn. Er bod y sector yn canolbwyntio am y tro ar ddelio ag effaith argyfwng COVID-19, rydym wedi nodi'r gweithgareddau canlynol ar y cyd:

- Gefeillio gwyliau e.e. Ffocws Cymru a No Border, gan adeiladu ar ymweliad Cymru â No Border gyda chefnogaeth menter y Gronfa Bontio; Tafwyl a gŵyl iaith Lydaweg Gouel Broadel ar Brezhoneg (y mae ei chydweithrediad hefyd wedi'i chefnogi drwy gronfa symudedd Cyngor Prydeinig Cymru);
- Meithrin rhwydwaith Celfyddydau Gweledol newydd rhwng Cymru a Llydaw;
- Datblygu cyfnewidfa sgiliau ac arallgyfeirio'r cyfleoedd rhwydweithio rhwng gweithredwyr diwylliannol o amgylch digwyddiadau allweddol fel Celtic Connections a WOMEX (yn cynnwys Celfyddydau Rhyngwladol Cymru); a
- Cyfranogiad Llydaw mewn gweithdy ar hawliau diwylliannol a democratiaeth ddiwylliannol (a drefnir gan Amgueddfa Genedlaethol Cymru).

Mae rhannu iaith a dysgu gan eraill yn un o amcanion ein strategaeth iaith Gymraeg, Cymraeg 2050, ac rydym yn cydweithio â'r asiantaeth iaith Lydaweg (Ofis ar Brezhoneg) drwy'r Rhwydwaith i Hyrwyddo Amrywiaeth Ieithyddol. Mae Llywodraeth Cymru wedi hwyluso cysylltiadau rhwng Addysg Oedolion Cymru a sefydliadau sy'n gyfrifol am addysgu oedolion yn Llydaw ac mae cydweithio ar dechnoleg iaith yn digwydd ar hyn o bryd. Bydd cynrychiolwyr o Lydaw yn ymweld â Chymru i fynychu Cynulliad Cyffredinol nesaf y Rhwydwaith Hybu Amrywiaeth Ieithyddol yng Nghaerdydd, a fydd yn canolbwyntio ar ddiwylliant ac ieithoedd llai cyffredin. Mae ymrwymiad cyffredin i gydweithio ar drosglwyddo iaith o genhedlaeth i genhedlaeth rhwng rhieni a'u plant.

[2] Partneriaeth Gyhoeddus-Breifat Ewropeaidd wedi'i chontractio i'r Comisiwn Ewropeaidd.

# 02 Llydaw

### Ynni'r Môr

Mae Llywodraeth Cymru wedi hwyluso cysylltiadau rhwng ein clystyrau ynni'r môr: Mynychodd Brittany Ocean Power gynhadledd flynyddol Ynni Morol Cymru yn 2019 ac mae cynrychiolwyr o'r sector, gan gynnwys swyddogion o Gyngor Rhanbarthol Llydaw, yn bwriadu mynychu'r gynhadledd nesaf yn 2021. Bydd hyn yn galluogi dealltwriaeth lawnach o flaenoriaethau a chryfderau polisi y naill a'r llall – hyd yma, rydym wedi nodi bod safleoedd ynni gwynt sy'n arnofio yn faes o ddiddordeb. Drwy Cambrian Offshore, mae safle Swnt Dewi yn Sir Benfro yn rhan o "Tiger", y prosiect CTE mwyaf erioed. O dan arweiniad Offshore Renewable Energy Catapult (OREC), mae gan y prosiect nifer o bartneriaid o Lydaw. Yn ogystal, mae Sabella o Lydaw newydd lofnodi cytundeb gyda Menter Môn i ddefnyddio dyfeisiau ynni'r llanw oddi ar arfordir Ynys Môn.

### Addysg

Trefnodd Llywodraeth Cymru a Chyngor Rhanbarthol Llydaw ymweliad mewnol gan Breton Further Education ac arweinwyr ieuenctid ym mis Hydref 2018, a arweiniodd at brosiect Erasmus+ ar y cyd, dan arweiniad Colegau Cymru, yn cynnwys colegau Cymru yn y sectorau gofal, morol ac amaethyddiaeth. Gan ddefnyddio'r berthynas gadarnhaol a ddatblygwyd, ac mewn partneriaeth â Cholegau Cymru, roedd "Diogelu Cysylltiadau Cymru yn y Dyfodol", menter Cronfa Pontio Ewropeaidd Llywodraeth Cymru, yn bwriadu cefnogi pobl ifanc o golegau Addysg Bellach Cymru i astudio mewn pum coleg ac ysgol uwchradd galwedigaethol yn Llydaw gyda'r bwriad o brofi cyfnewidfeydd dwyochrog y tu allan i fframwaith Erasmus. Roedd yr ymweliadau i fod i gael eu cynnal ym mis Mawrth ond oherwydd COVID-19, dim ond myfyrwyr o Gaerdydd a'r Fro oedd yn gallu ymweld.

### Cyfryngau

Hwylusodd Llywodraeth Cymru ymweliad gan gyfryngau o Lydaw i'r Ŵyl Cyfryngau Celtaidd yn Llanelli yn 2018. Arweiniodd hyn at aelodaeth Llydaw o'r rhwydwaith cyfryngau Celtaidd ac at ddau gynhyrchiad ar y cyd rhwng S4C a theledu Llydaweg. Cyfarfu cynrychiolydd o sector ffilm a theledu Llydaw ag S4C a BBC Cymru fel rhan o'r ddirprwyaeth ddiwylliannol ym mis Mawrth 2020 i archwilio cyfleoedd pellach i gydweithio a nodi partneriaethau posibl. Bydd y gwaith hwn, a galwad bosibl am gyd-gynhyrchu/cyd-ddatblygu syniadau a phrosiectau, yn cael ei ddatblygu drwy gyfranogiad Llydaw yn y bartneriaeth Geltaidd. Mae hyn yn cynnwys S4C, sianel yr Iaith Wyddeleg TG4, ILBF (Cronfa Ddarlledu'r Iaith Wyddeleg) a BBC Alba (sianel iaith Gaeleg yr Alban). Bydd cynrychiolwyr o BBC Cymru ac S4C yn cymryd rhan yn yr Ŵyl Cyfryngau Celtaidd nesaf yn Quimper, Llydaw pan gaiff ei hail-drefnu.

### Cydweithredu Tiriogaethol Ewropeaidd (CTE) a Horizon 2020

Mae'r CTE a rhaglenni ariannu Ewropeaidd eraill wedi chwarae rhan bwysig yn y berthynas rhwng Cymru a Llydaw. Mae partneriaid o Lydaw gan 14 o brosiectau Cymru yn rhaglenni trawswladol parhaus CTE Ardal yr Iwerydd a Gogledd-orllewin Ewrop.

Mae cwmpas y themâu'n eang, ond mae pwyslais ar y bio-economi, yr economi gylchol ac ynni adnewyddadwy. Un enghraifft o'r olaf yw'r prosiect ynni'r llanw rhwng Prifysgol Abertawe a'r datblygwr o Lydaw, Sabella. Mae 11 o brosiectau cydweithredol Horizon 2020, gyda chynrychiolaeth o sefydliadau yng Nghymru a Llydaw, gyda ffocws morol i'r rhan fwyaf ohonynt. Yn ogystal, mae "Diogelu Cysylltiadau Cymru yn y Dyfodol" wedi cefnogi cydweithrediad rhwng prifysgolion Aberystwyth a Rennes ar effaith Brexit ar bysgota a chymunedau pysgota yng Nghymru, Iwerddon, Noord Holland a Llydaw.

**Ein Gweithredoedd**
**(Tymor byr – blwyddyn)**

- Dwysáu'r bartneriaeth ar seiberddiogelwch gyda Llydaw, gan ganolbwyntio ar ddatblygu partneriaethau academaidd rhwng Sefydliadau Addysg Uwch Cymru a Llydaw a threfnu ymweliad gan seiberddirprwyaeth o Lydaw i Gymru.
- Parhau i ddatblygu'r berthynas bwyd-amaeth ac ail-raglennu'r ymweliad astudio clwstwr.
- Parhau i weithio mewn partneriaeth â Llydaw (a gwledydd Ewropeaidd eraill) ar brosiectau INTERREG cyfredol, gan gynnwys prosiect Ecosystem Bwyd Iach yr Iwerydd (AHFES) a phrosiect ValuSect.
- Hwyluso ymweliad mewnol ar ynni'r môr i Gymru gyda'r bwriad o ategu perthynas a nodi cryfderau cyffredin.
- Parhau i rannu gwybodaeth â Llywodraeth Ranbarthol Llydaw ar effaith COVID-19 gan ganolbwyntio ar rannu gwybodaeth am iechyd a'r sector twristiaeth.
- Hyrwyddo a rhannu dysgu ar ein dull o weithredu'r Nodau Datblygu Cynaliadwy drwy fframwaith Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.
- Rhannu dysgu ar ddatgarboneiddio ac ailgylchu.
- Darparu blas Cymreig cryf i fenter "Les Voisins on Tour" Llywodraeth y DU pan fydd yn ymweld â dinasoedd Brest, Rennes a St Malo yn Llydaw.
- Archwilio'r posibilrwydd o ad-drefnu'r ymweliadau gan golegau Addysg Bellach Cymru â Llydaw a ohiriwyd oherwydd COVID-19.
- Cynnal cynhadledd ar hawliau diwylliannol a democratiaeth ddiwylliannol ar gyfer Is-lywydd Diwylliant Llydaw, a dirprwyaeth o'r sector amgueddfeydd, a datblygu cysylltiadau diwylliannol.

**(Tymor canolig – 2021-2025)**

- Parhau i adeiladu ar y berthynas bresennol rhwng sectorau addysg ac ieuenctid Cymru a Llydaw.
- Datblygu tair partneriaeth ddiwylliannol, chwaraeon a/neu greadigol gynaliadwy a gwydn rhwng Cymru a Llydaw gydag o leiaf un i ganolbwyntio ar y Gymraeg a'r iaith Lydaweg.
- Sefydlu tri phrosiect cydweithredol yn y sectorau economaidd sy'n cael blaenoriaeth.
- Trefnu cyfarfod lefel wleidyddol blynyddol rhwng Cymru a Llydaw a chynnal un Wythnos Cymru yn Llydaw a gweithgarwch "ffocws ar Lydaw" yng Nghymru.



# Gwlad y Basg

## Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth

Mae Llywodraeth Cymru wedi mwynhau perthynas ddeinamig â Gwlad y Basg ers datganoli. Cafodd y berthynas hon ei ffurfioli ym mis Gorffennaf 2018 pan ymwelodd Arlywydd Gwlad y Basg â Chymru a llofnodi Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth. Cymru yw un o'r rhanbarthau sy'n cael blaenoriaeth newydd yn Strategaeth Ryngwladol Llywodraeth Gwlad y Basg. Mae gweithgarwch yn canolbwyntio ar iechyd, cyllid ac arloesi. Ategwyd y berthynas wrth i Wlad y Basg alw o'r newydd am brosiectau yng nghanol 2020 i gefnogi sefydliadau sy'n dymuno cydweithredu â Chymru.

## Cydweithrediad

### Iechyd

Fel y wlad a ysbrydolodd y GIG a'r cyntaf i weithredu asesiadau statudol o'r effaith ar iechyd, mae gan Gymru arbenigedd a dysgu i'w rhannu â phartneriaid. Mae swyddogion Cymru a Gwlad y Basg wedi bod yn gweithio ar gynllun gweithredu iechyd a gofal cymdeithasol integredig yn dilyn dirprwyaeth Weinidogol o Wlad y Basg ym mis Gorffennaf 2019. Canolbwyntiodd yr ymweliad ar feysydd o ddiddordeb cyffredin i Gymru a Gwlad y Basg, yn enwedig trawsnewid gofal sylfaenol a gofal iechyd sy'n seiliedig ar werthoedd. Yn dilyn yr ymweliad, bu Prif Swyddog Meddygol Cymru yn cymryd rhan mewn 'Taith Ddysgu' ar bolisi cymdeithasol yng Ngwlad y Basg, sy'n fenter flynyddol i gyflwyno polisi a phrofiad Gwlad y Basg i arbenigwyr o wledydd a rhanbarthau partner. Rydym yn parhau i weithio i ddatblygu prosiectau cydweithredol penodol ac ymweliadau cyfnewid mewn meysydd sydd o ddiddordeb i'r ddwy ochr.

### Arloesi

Cydnabyddir Gwlad y Basg fel arweinydd ym maes arloesi diwydiannol ac mae ganddi hanes cryf o ddenu cyllid ymchwil ac arloesi rhyngwladol cystadleuol. Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i feithrin cysylltiadau â Llywodraeth Gwlad y Basg a'i hasiantaethau i rannu gwybodaeth a phrofiadau ar gymorth arloesi a broceru cysylltiadau pellach gyda'r nod o gynnal a datblygu cydweithredu wedi'i arwain gan arloesi ar ôl Brexit. Mae rhai enghreifftiau o weithgarwch diweddar i'w gweld isod:

- Gweithiodd Llywodraeth Cymru gyda phartneriaid o Wlad y Basg i lansio trydydd rhifyn y fenter Bind 4.0 yn Tramshed Tech Caerdydd ym mis Gorffennaf 2019, sy'n ceisio cysylltu cwmnïau Technoleg Gwlad y Basg (cwmnïau brodorol a chwmnïau rhyngwladol sydd wedi'u lleoli yng Ngwlad y Basg) â busnesau newydd o bob cwr o'r byd, sydd wedi denu ceisiadau o Gymru.
- Mae'r Tîm Arloesi yn rheoli cyfranogiad mewn dau brosiect CTE Interreg Ewrop – Manumix a Cohes3ion – sy'n canolbwyntio ar wella effeithiolrwydd systemau cymorth arloesi yn y sector gweithgynhyrchu uwch a sut y gall polisïau arloesi sy'n defnyddio'r dull arbenigo clyfar weithio ar lefel isranbarthol. Llywodraeth Cymru hefyd yw Arweinydd Cyfathrebu prosiect Cohes3ion, sy'n cynnwys cyswllt rheolaidd â'r partneriaid arweiniol Beaz Bizkaia ac Orkestra (Sefydliad Cystadleurwydd Gwlad y Basg).
- Cefnogodd Llywodraeth Cymru Fforwm cyntaf Cystadleurwydd Tiriogaethol Cymru-Gwlad y Basg. Dan arweiniad Prifysgol Caerdydd ac Orkestra, cynhaliwyd y Fforwm yn ninas Bilbao ym mis Chwefror 2020 gyda'r nod o greu partneriaethau ymchwil ac arloesi strategol newydd a fydd yn cyflymu'r broses o drosglwyddo i Ddiwydiant 4.0 (a thu hwnt) ymhlith busnesau bach a chanolig yng nghyd-destun strategaethau arbenigo clyfar Gwlad y Basg a Chymru.

### Seiberddiogelwch


Ym mis Tachwedd 2019, hwylusodd cronfa Diogelu Cysylltiadau Cymru yn y Dyfodol y seiberddirprwyaeth gyntaf i fynychu cynhadledd ac arddangosfa Diwydiant Gwlad y Basg 4.0 ar wahoddiad clwstwr seiber newydd Gwlad y Basg. Rydym yn awyddus i drefnu ymweliad cyfatebol â Chymru.

### Gwyddorau Bywyd

Rydym wedi nodi cydweddu cryf yn y sector gwyddorau bywyd ac mae swyddogion wedi datblygu perthynas â Chlwstwr Gwyddorau Bywyd Gwlad y Basg. Roedd cynrychiolwyr o'r clwstwr i fod i fynychu'r gynhadledd gwyddorau bywyd flynyddol "Iechyd Yfory" yn Llandudno ym mis Mawrth 2020 ac rydym ar hyn o bryd yn trafod pryd y gallai ymweliad fod yn bosibl.

### Bwyd-amaeth

Arweiniodd Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig ddirprwyaeth o sector bwyd Cymru i Wlad y Basg yn 2018 i archwilio cyfleoedd cydweithredol. Cynigiodd hyn gipolwg gwerthfawr ar bolisi clwstwr Gwlad y Basg (sy'n cael ei gydnabod fel un o'r hynaf o'i fath yn y byd). Llywiodd hynny ddatblygiad ein Clystyrau Bwyd a chodwyd ein proffil mewn rhanbarth targed. Rydym yn bwrw ymlaen â'r cydweithio drwy ein haelodaeth ar y cyd o rwydwaith REGAL[3] o ranbarthau bwyd enwog a phrosiect CTE (Interreg) AHFES.





[3] Rhwydwaith REGAL – Rhanbarthau arloesol ac entrepreneuraidd Ewrop dros ddatblygiadau tiriogaethol mewn bwyd a llesiant.

# 03 Gwlad y Basg

**Ymchwil ac Addysg**

Cefnogir cydweithio rhwng Cymru a Gwlad y Basg drwy raglen Ymchwil a Datblygu'r UE, Horizon 2020. Ar hyn o bryd mae 28 enghraifft o gydweithio sy'n cynnwys 47 o sefydliadau Gwlad y Basg mewn amrywiaeth o feysydd gan gynnwys nanodechnoleg, graffen, bioeconomi a gwyddorau bywyd. Yn ogystal â'r Fforwm Cystadleurwydd, roedd dau gymhwysiad arall yn ymwneud â Gwlad y Basg (ymweliadau allanol gan ymchwilwyr o Brifysgolion Met Caerdydd ac Aberystwyth mewn meysydd iechyd ac iaith, yn y drefn honno).

O ran addysg bellach, mae Llywodraeth Cymru a Cholegau Cymru wedi datblygu cysylltiadau cryf â Tknika, canolfan arloesi Gwlad y Basg yn y sector addysg a hyfforddiant galwedigaethol. Mae dirprwyaethau o Gymru wedi bod yn ymwelwyr mynych (naill ai drwy ERASMUS+ neu gyllid uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru), yn fwyaf diweddar ym mis Hydref 2018 i archwilio model Tknika yn fanylach.

**Trethiant**

Mae Llywodraeth Cymru a Gwlad y Basg yn rhannu gwybodaeth ac arfer da am bolisi treth ac yn cydweithio i fynd i'r afael â heriau a chyfleoedd cyffredin ar dreth. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi ymrwymo yn ei Chynllun Treth blynyddol i hyrwyddo agenda polisi treth Cymru gyda'i phartneriaid rhyngwladol.

Mae perthynas strategol gadarnhaol a chynhyrchiol ar waith ar lefel swyddogol a Gweinidogol. Ym mis Tachwedd 2019, teithiodd dirprwyaeth o Drysorlys Cymru ac Awdurdod Cyllid Cymru i Bilbao i rannu'r wybodaeth ddiweddaraf am weinyddu trethi a datblygiadau polisi yng Nghymru ac i ddysgu o raglen waith bresennol Llywodraeth Gwlad y Basg. Roedd hyn yn dilyn ein gwahoddiad i Ddirprwy Weinidog Trethi Gwlad y Basg annerch Fforwm Awdurdodau Treth y DU, a gafodd ei letya gan Lywodraeth Cymru ym mis Mai 2019.

**Iaith**


Rydym ni a'n cymheiriaid yn Llywodraeth Gwlad y Basg yn cydweithredu ar gynllunio ieithyddol, yn ddwyochrog a thrwy'r Rhwydwaith i Hyrwyddo Amrywiaeth Ieithyddol. Mae gennym ddiddordeb cyffredin mewn trosglwyddo rhwng cenedlaethau a'r defnydd o dechnoleg a rhaglenni i annog defnydd cymdeithasol o iaith. Fel rhan o weithgareddau'r Llywodraeth i nodi Blwyddyn Ryngwladol Ieithoedd Cynhenid y Cenhedloedd Unedig yn 2019, bu cynrychiolwyr o lywodraeth Gwlad y Basg yn annerch gŵyl "Ein Llais yn y Byd", am ei gwaith i annog y defnydd o'r iaith Fasgeg mewn chwaraeon. Yn ystod hydref 2019, bu llywodraethau Cymru, Catalonia a Gwlad y Basg hefyd yn cyfnewid dysgu ar hwyluso'r defnydd o'n hieithoedd yng nghymunedau Gwlad y Basg, trosglwyddo'r Gymraeg rhwng cenedlaethau a defnyddio'r iaith Gatalaneg mewn busnes a masnach.

**Ein Gweithredoedd**
**(Tymor byr – blwyddyn)**

- Ymweliad Gweinidogol Llywodraeth Cymru neu rhith-ymweliad â Gwlad y Basg.
- Parhau i rannu gwybodaeth am effaith COVID-19 gan ganolbwyntio'n benodol ar gadernid economaidd a lliniaru gwendidau.
- Hybu cydweithredu gyda Llywodraeth Gwlad y Basg ar gynllunio ieithyddol gyda chynrychiolwyr o Wlad y Basg i ymweld â Chymru ar gyfer Cynulliad Cyffredinol y Rhwydwaith i Hyrwyddo Amrywiaeth Ieithyddol a'r gynhadledd gysylltiedig ar iaith a diwylliant.
- Rhannu profiad a dysgu ar ddatblygu brand Cymru Wales yng Ngwlad y Basg ar Ddydd Cenedlaethol Euskadi Gwlad y Basg nesaf, a pharhau i rannu dulliau o ymgysylltu â Chymry ar wasgar.
- Gwahodd Gweinidog a chwmnïau o Wlad y Basg i gynadleddau Arloesi yn ystod 2021 a threfnu ymweliad gan Glwstwr Seiber Gwlad y Basg.
- Gwahodd clwstwr Gwyddorau Bywyd Gwlad y Basg i Gymru a chynnal cynllun peilot dyfeisiau meddygol rhwng y ddwy wlad.
- Rhannu gwybodaeth am weithrediad Cynhyrchiant Arloesedd SMART, model Partneriaeth Trosglwyddo Gwybodaeth Cymru ac Arloesi Agored ac archwiliad iechyd data Prifysgolion Caerdydd.
- Trefnu digwyddiad "lledaenu" i'w gynnal yn 2021, fel rhan o brosiect Interreg Cohes3ion, a fydd yn cynnwys Gwlad y Basg.
- Gwahodd Canolfan Arloesi Digidol Gwlad y Basg a Chanolfan Ymchwil Gweithgynhyrchu Uwch Cymru i gydweithio ar brosiectau gyda'r nod o ddatblygu Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn y dyfodol.
- Parhau i gydweithio ar bolisïau treth ac iechyd, lle y bo'n briodol, i helpu i gyflawni ar gyfer ein priod gymunedau.
- Rhannu dysgu ar ein dull o weithredu Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig drwy Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, datgarboneiddio yn y cyfnod sy'n arwain at COP 26 ac ailgylchu.
- Gwahodd IKERBASQUE i Gymru i rannu arferion gorau o ran denu talent wyddonol fyd-eang i'n priod wledydd.
- Cyhoeddi galwad benodol am brosiectau sy'n canolbwyntio ar Ymchwil ac Arloesi i ategu'r hyn a gyhoeddwyd yng nghanol 2020 gan Wlad y Basg.

**Ein Gweithredoedd**
**(Tymor canolig – 2021-2025)**

- Datblygu a chefnogi tri phrosiect cydweithredu cynaliadwy a gwydn yn ymwneud â diplomyddiaeth gyhoeddus, pŵer cymell neu bolisi.
- Sefydlu dwy fenter gydweithredol gadarn ym maes Arloesi sy'n cynnwys busnesau bach a chanolig.
- Hwyluso a chefnogi'r berthynas rhwng clystyrau Seiber a Gwyddorau Bywyd perthnasol gyda'r nod o sicrhau arloesedd a deilliannau masnachol.
- Gwahodd Gwlad y Basg i gymryd rhan yng nghynadleddau Arloesi Llywodraeth Cymru yn y dyfodol.
- Archwilio polisïau ac arloesedd Gwlad y Basg yn y sector ynni, gan ganolbwyntio ar ynni'r môr ac ymrwymiadau perchnogaeth leol ym maes cynhyrchu ynni.
- Trefnu cyfarfod blynyddol ar lefel wleidyddol.
- Cynnal un Wythnos Cymru yng Ngwlad y Basg ac un gweithgarwch "ffocws ar Wlad y Basg" yng Nghymru.



# Fflandrys

## Cydweithrediad

Mae Llywodraeth Cymru wedi mwynhau perthynas gref â Llywodraeth Fflandrys ers datganoli, dan arweiniad ei swyddfa ym Mrwsel ac aelodaeth ar y cyd o rwydweithiau Ewropeaidd ym meysydd cynaliadwyedd, llywodraethu da a sybsidiaredd, iechyd, cyfnewid diwylliannol a chydweithredu economaidd. Mae hyn yn ategu'r berthynas gref a ddatblygwyd rhwng Senedd Fflandrys a'r Senedd, gyda'r Llywydd yn ymweld â'i swyddog cyfatebol yn Fflandrys ym Mrwsel ym mis Mawrth 2020.

Mae ein perthynas â Fflandrys a Llywodraeth Fflandrys wedi'i hatgyfnerthu drwy weithgarwch i goffáu'r Rhyfel Byd Cyntaf a'r gofeb Gymreig a oedd yn cynnwys Llywodraeth Fflandrys, talaith Gorllewin Fflandrys, Senedd Fflandrys, Maer Langemark, lle mae'r gofeb wedi'i lleoli, a'r gymuned leol. Dadorchuddiwyd y gofeb ym mis Awst 2014 a nodwyd canmlwyddiant brwydr Passchendaele yn 2017. Drwy gydol menter canmlwyddiant Cymru'n Cofio/Wales Remembers, cynhaliwyd prosiectau ar y cyd rhwng Fflandrys a Chymru. Dau o'r rhai mwyaf nodedig oedd arddangosfa Cadair Wag 3D Hedd Wyn yn Senedd Fflandrys a'r digwyddiad Barddoniaeth Colled ym Mrwsel, wedi'i gyd-drefnu gan swyddfa Llywodraeth Cymru ym Mrwsel a Llenyddiaeth Cymru, lle bu awduron cyfoes o Gymru yn archwilio ac yn ymateb i fywyd a gwaith Hedd Wyn.

Gan adeiladu ar ein cyd-aelodaeth gyswllt o grŵp rhanbarthol y Pedwar Rhanbarth Sbardun, Menter Vanguard a'n presenoldeb ym Mrwsel, rydym yn meithrin cysylltiadau â Masnach a Buddsoddi Fflandrys a chyda chlystyrau busnes Fflandrys ac wedi sefydlu perthynas â Grŵp Awyrofod Fflandrys (FLAG).

Dynodwyd Fflandrys yn rhanbarth partner strategol ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol gyda chysylltiadau rhwng yr adrannau iechyd a gofal, byrddau iechyd, canolfannau gwyddor bywyd, prifysgolion, asiantaethau arbenigol priodol a thrwy ein cyd-aelodaeth o rwydwaith iechyd rhanbarthol Ewrop a oedd wedi'i leoli yn Llywodraeth Fflandrys ac sydd bellach wedi'i gydleoli yn Nhŷ Cymru, Brwsel. Mae'r berthynas yn dyddio'n ôl i 2015 pan ymwelodd dirprwyaeth o Asiantaeth Iechyd a Gofal Fflandrys â Chymru i ddysgu am ein system iechyd a gofal cymdeithasol, dulliau iechyd cyhoeddus a gwasanaethau cymdeithasol. Un maes penodol o ddiddordeb cyffredin rhwng Cymru a Fflandrys yw anghydraddoldeb iechyd.

Yn ogystal, mae lefel sylweddol o gydweithredu o ran ymchwil rhwng Cymru a Fflandrys. Dangosir hyn gan y bartneriaeth strategol a arwyddwyd yn 2015 rhwng Prifysgol Caerdydd a KU Leuven, prifysgol fwyaf blaenllaw Gwlad Belg, a oedd yn cefnogi twf cydweithrediadau ymchwil rhwng y ddau sefydliad. Mae hyn wedi arwain at ddyblu cyhoeddiadau ar y cyd a 13 o brosiectau Horizon 2020 ar y cyd a ddyfarnwyd hyd yma. KU Leuven yw sefydliad partner prifysgol mwyaf cyffredin Prifysgol Caerdydd yn rhaglen Horizon 2020. Ar hyn o bryd, mae Prifysgol Caerdydd a KU Leuven yn datblygu rhaglen Meistr ar y cyd ym maes Rheoli Economaidd ac mae ganddynt gytundeb i gyd-ddyfarnu graddau PhD ar gyfer astudiaethau doethuriaeth cydweithredol. Yn fwy cyffredinol, cyflwynodd Prif Gynghorydd Gwyddonol Cymru gryfderau Cymru i Asiantaeth Ymchwil Fflandrys ym mis Medi 2019.

Mae Fflandrys yn bartner masnachu sylweddol i'r DU ac mae wedi ymrwymo i ddod o hyd i ffordd o gynnal perthynas agos â phedair gwlad y DU y tu hwnt i Brexit. Mae Cytundeb Llywodraethu newydd Fflandrys (2019-2024) yn nodi y bydd y llywodraeth yn cryfhau cydweithrediad dwyochrog â Chymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Cyfarfu Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol â Gweinidog Arlywydd Fflandrys ym mis Ionawr 2020 a chytunwyd y dylai llywodraethau Cymru a Fflandrys lofnodi Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth, gan ganolbwyntio ar nifer o feysydd penodol. Y bwriad i ddechrau yw i'r cytundeb ganolbwyntio ar dechnoleg a seiberddiogelwch. Bydd hynny'n adeiladu ar y cysylltiadau presennol a'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng Seiber Cymru a B-Hive, canolfan dechnoleg ariannol Fflandrys, ac yn adlewyrchu buddiannau cyffredin o ran seiberddiogelwch. Y nod yw ehangu'r ffocws i gynnwys iechyd, diwylliant, ailgylchu a'r economi gylchol dros amser.

## Cydweithredu Tiriogaethol Ewropeaidd (CTE)

Yn ogystal â'r cysylltiadau a sefydlwyd drwy Horizon, mae partneriaid o Gymru yn cydweithredu â phartneriaid yn Fflandrys drwy gymryd rhan mewn pedwar prosiect a ariennir gan CTE Gogledd-orllewin Ewrop ar effeithlonrwydd adnoddau a defnyddio ynni adnewyddadwy. Mae prosiect ALG-AD Prifysgol Abertawe yn arwain gwaith gyda'i gymheiriaid yn Ghent (a Gorllewin Llydaw) ymhlith eraill, gan greu gwerth o faetholion gwastraff sy'n integreiddio technoleg treulio algaidd ac anaerobig tra bod Fflandrys (Prifysgol Thomas More a FOOD Fflandrys) yn rhan o'r prosiect ValuSect y cyfeiriwyd ato uchod yng nghyd-destun Llydaw.


# 04 Fflandrys

**Ein Gweithredoedd**
**(Tymor byr – blwyddyn)**

- Datblygu a chyflwyno Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth gan ganolbwyntio'n gyntaf ar dechnoleg a seiberddiogelwch.
- Gweithio gyda Llywodraeth y DU i groesawu dirprwyaeth o Fflandrys ar seiberddiogelwch i gynhadledd Cyber UK, sy'n cael ei chynnal yng Nghymru yn 2021.
- Archwilio gwaddol Cymru'n Cofio/Wales Remembers a chefnogi'r berthynas rhwng Sefydliad Heddwch Fflandrys ac Academi Heddwch newydd Cymru.
- Parhau i weithio i nodi meysydd posibl ar gyfer cydweithredu mewn perthynas ag iechyd, gan gysylltu â gwaith Rhwydwaith Rhanbarthau Iechyd Ewrop Sefydliad Iechyd y Byd.

**(Tymor canolig – 2021-25)**

- Datblygu dau brosiect seiber cydweithredol rhwng Cymru a Fflandrys.
- Hyrwyddo a rhannu dysgu ar ein dull o weithredu'r Nodau Datblygu Cynaliadwy drwy fframwaith Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.
- Archwilio'r potensial ar gyfer dau brosiect cydweithredol pellach yn y meysydd eraill a nodwyd yn y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth.



# Québec

## Datganiad o Fwriad

Agorodd y cyn-Brif Weinidog Carwyn Jones Swyddfa Canada Llywodraeth Cymru ym Montréal ym mis Mawrth 2018. Ers hynny, rydym wedi gweithio ledled y wlad i greu rhwydwaith o gysylltiadau a pherthnasoedd o Ganada, ac mae'r llwyddiant mwyaf yn hynny o beth wedi bod yn Québec. Drwy ein perthynas ragorol â Dirprwyaeth Québec i'r DU yn Llundain, cychwynnwyd trafodaethau gennym ar gytundeb Cymru-Québec a oedd yn anelu at gynyddu cydweithio â Québec i gwmpasu pum maes:

1. Masnach, drwy hwyluso mynediad i gadwyni cyflenwi;
2. Ymchwil ac Arloesi;
3. Y Celfyddydau a Diwylliant;
4. Polisi iaith;
5. Rhannu gwybodaeth ac arbenigedd.

Llofnododd y Datganiad o Fwriad gan Weinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol fel rhan o'i hymweliad â Chanada yn 2020. Yn ystod yr ymweliad hwn, cyhoeddodd hi a'i swyddog Québecois cyfatebol ein menter gyntaf gyda Québec – galwad ar y cyd am brosiectau gyda chyllid cydweithredol o tua £17,500 o'r ddwy ochr. Mae yna gyfleoedd ac awydd sylweddol gan y ddwy ochr i weithio'n agos a rhannu'r hyn sy'n cael ei ddysgu.

## Cydweithrediad

### Awyrofod

Llofnododd Aerospace Cymru Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth gyda'i gwmni cyfatebol yn Québec, 'Aéro Montréal', yn Sioe Awyr Farnborough ym mis Gorffennaf 2018.Nodau'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yw cydweithio'n agosach, hwyluso teithiau masnach ar y cyd a chynyddu cyfleoedd cadwyn gyflenwi yn y ddau glwstwr, yn enwedig i fusnesau bach a chanolig.

### Ymchwil ac Arloesi


Mae Québec hefyd yn enghraifft ddiddorol o bartner nad yw'n aelod o'r UE sydd â chysylltiadau agos iawn â'r UE. Er enghraifft, rydym wedi bod yn cyfnewid gyda Québec ar ei raglen ariannu lefel Daleithiol i gefnogi cyfranogwyr Québecois mewn prosiectau Horizon 2020, er nad oes cronfa arian cyfatebol ffederal yng Nghanada ynghylch Horizon 2020. Gallai'r cydweithrediad rhanbarthol hwn gyda rhaglen yr UE gan ranbarth nad yw'n aelod o'r UE fod yn fodel diddorol i Gymru yn y cyfnod ar ôl Brexit.

Yn ystod mis Mai 2020, cynhaliodd timau Cysylltiadau Rhyngwladol ac Arloesi Llywodraeth Cymru sgwrs gychwynnol gyda Banc Bio Prifysgol Caerdydd a'r swyddog gwyddonol yn Nirprwyaeth Québec yn Llundain ynghylch y posibilrwydd o gydweithio o ran COVID-19. Gall meysydd posibl eraill o gydweithio yn y dyfodol gynnwys therapïau canser sy'n cysylltu â Gwybodaeth Artiffisial, Meddygaeth Bersonol a Niwrowyddoniaeth gan ganolbwyntio'n gyntaf ar Ddementia.

### Y Celfyddydau a Diwylliant

Cymerodd artistiaid o Québec ran yn FOCUS Cymru yn Wrecsam ym mis Mai 2019. Roedd yr Asiant Cyffredinol hefyd yn bresennol a chyfarfu â Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth Llywodraeth Cymru. Fel rhan o'r ymweliad hwn, cafodd yr Asiant Cyffredinol ei gyfweld gan BBC Cymru a'i holi am bwysigrwydd cydweithio rhwng Cymru a Québec, a chryfder ein perthynas.

Rydym wedi hyrwyddo amryw o artistiaid Saesneg a Chymraeg eu hiaith yng ngwyliau POP Montréal a M for Montréal yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, drwy bartneriaeth â FOCUS Cymru. Bwriadwn wneud yr un peth eto eleni, yn ogystal â gweithio gyda Chelfyddydau Rhyngwladol Cymru i ddod â dirprwyaeth o artistiaid o Gymru i CINARS, gŵyl ddwyflynyddol y celfyddydau perfformio ym Montréal.



# 05 Québec

**Ein Gweithredoedd**
**(Tymor byr – blwyddyn)**

- Dewis prosiectau llwyddiannus ar gyfer yr alwad ar y cyd gyntaf i gynnal rhaglen gydweithrediad rhwng Cymru a Québec yn hydref 2020 a fydd yn canolbwyntio ar gynaliadwyedd, datblygu economaidd ac ymchwil ac arloesi, gydag ymateb a chyfrannu at yr ymdrechion adfer wedi COVID-19 wrth wraidd pob prosiect a ddewisir.
- Hwyluso cyfres o ddigwyddiadau digidol mewn ymateb i ddysgu ar y cyd o ran COVID-19.
- Gweithio gyda Dirprwyaeth Québec yn Llundain i hwyluso cydweithio rhwng Québec a Thîm Cymru ar effaith COVID-19 a thu hwnt. Mae Québec wedi mynegi diddordeb mewn cydweithio â Chymru ar Fanc Bio COVID yn ogystal â sectorau diwydiannol allweddol eraill.
- Parhau i gynllunio gyda Chelfyddydau Rhyngwladol Cymru i ddod â dirprwyaeth o artistiaid o Gymru i Montréal ym mis Mai 2021 ar gyfer CINARS, gŵyl ddwyflynyddol o gelfyddydau perfformio, a thynnu sylw at Gymru fel rhan o weithgarwch hyrwyddo'r ddirprwyaeth.
- Sefydlu ffrwd waith mewn perthynas ag addysg drochi Ffrangeg ac addysgu Ffrangeg i oedolion yn Québec gyda'r nod polisi o sefydlu cyfnewidfa bolisi rhwng y Swyddfa Québecois de la langue française ac isadrannau perthnasol Llywodraeth Cymru a'i sefydliadau partner.

**(Tymor canolig – 2021-25)**

- Ailgyfeirio gwaith gydag Aerospace Wales ac Aéro Montréal ar weithgarwch ar y cyd o ran Farnborough gyda chydweithrediad ar baratoi ein cadwyni cyflenwi priodol ar gyfer byd ôl-COVID-19, a dyfodol y diwydiant awyrofod.
- Datblygu'r berthynas â Llywodraeth Québec a chychwyn rhaglen o ymweliadau Gweinidogol.
- Dwysáu'r cydweithio rhwng Genome Québec a Banc Bio Prifysgol Caerdydd, gan annog ehangu prosiectau cydweithredol ymhellach rhwng Québec, Ecosystem Iechyd Digidol Cymru a SAIL Databank.
- Datblygu partneriaeth gyda sefydliad ym maes niwroleg yn Québec, gan adeiladu ar gryfder CUBRIC yng Nghaerdydd, mewn cydweithrediad â swyddfa'r Prif Gynghorydd Gwyddonol.
- Hyrwyddo a rhannu dysgu ar ein dull o weithredu'r Nodau Datblygu Cynaliadwy drwy Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

# Rhwydweithiau Ewropeaidd a Rhyngwladol

Mae cydweddiad cryf Cymru o ran buddiannau â'i phartneriaid yn golygu bod Cymru'n cymryd rhan mewn llawer o'r un rhwydweithiau Ewropeaidd a rhyngwladol â'i phartneriaid rhanbarthol sy'n cael blaenoriaeth ac, mewn rhai achosion, yn cyd-sefydlu'r rhwydweithiau hyn – gyda Regions4 a'r Rhwydwaith i Hyrwyddo Amrywiaeth Ieithyddol (NPLD) yn ddwy enghraifft o'r fath.

Yn fewnol, rydym wedi cynnal ymarfer i flaenoriaethu'r rhwydweithiau Ewropeaidd a rhyngwladol y mae Llywodraeth Cymru yn cymryd rhan ynddynt i nodi'r rhai sy'n cefnogi ein blaenoriaethau strategol, y byddwn yn dychwelyd atynt unwaith y bydd perthynas y DU a'r UE yn ddigon sefydlog a gweithredol. Bydd aelodaeth o rwydweithiau Ewropeaidd a rhyngwladol  yn bwysicach ar ôl Brexit.

Er mwyn gwneud hyn, nodwyd nifer o feini prawf sy'n gysylltiedig â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'r Strategaeth Ryngwladol:

1. A yw'r rhwydwaith yn gyson â strategaethau ehangach Llywodraeth Cymru?
2. A oes cyfleoedd i Gymru arwain?
3. A fydd y rhwydwaith yn ymhelaethu ar lais Cymru ar y llwyfan rhyngwladol ac yn darparu mynediad i ddylanwadwyr, y rhai sy'n gwneud penderfyniadau a sefydliadau rhyngwladol?
4. A yw'r rhwydwaith yn gyson â chydweithio presennol â phartneriaid rhanbarthol?
5. A oes capasiti ar y lefel briodol i ymgymryd â rôl arwain?

Yn seiliedig ar y meini prawf hyn, rydym wedi nodi'r rhwydweithiau canlynol lle gall Cymru chwarae rhan flaenllaw:

- Mae Llywodraeth Cymru wedi cael ei hethol yn gadeirydd **Menter Vanguard** yn 2020, sy'n rhwydwaith dylanwadol o 36 o ranbarthau'r UE sydd wedi ymrwymo i ddefnyddio strategaethau arbenigo deallus i wella cystadleurwydd sectorau diwydiannol allweddol ledled Ewrop, drwy brosiectau cydweithredol a buddsoddiadau ar y cyd, gan hyrwyddo'r defnydd o dechnolegau galluogi allweddol. Mae Gwlad y Basg, Fflandrys a Baden-Württemberg yn aelodau gweithgar o'r rhwydwaith. Mae swyddfa Brwsel a thîm Arloesi Busnes Llywodraeth Cymru yn arwain ar y cyd ar ymgysylltu â'r rhwydwaith. Ers ymuno â Menter Vanguard, mae Prifysgolion Bangor ac Abertawe ill dau wedi chwarae rhan uniongyrchol yng ngweithgareddau cydweithredol y rhwydwaith ("prosiectau peilot") ar fioeconomi a gweithgynhyrchu cynaliadwy, gan arwain at geisiadau llwyddiannus gan gonsortiwm am brosiectau a ariennir gan Ewrop. Mae Prifysgol Caerdydd a Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant hefyd yn ystyried cymryd rhan mewn prosiect peilot Vanguard ar argraffu 3D. Ar hyn o bryd rydym yn gweithio ar ddatblygu digwyddiad Vanguard rhanbarthol mewn partneriaeth â rhanbarth Randstad (yr Iseldiroedd) sy'n debygol o gael ei gynnal yng Nghaerdydd yn ystod mis Mawrth 2021.
- **Rhanbarthau dros Ddatblygu Cynaliadwy (Regions4)** – Mae cenedl sy'n gyfrifol yn fyd-eang yn un sy'n adeiladu pontydd a phartneriaethau gydag eraill, gan rannu syniadau, ymarfer a dysgu gwersi i gyflymu camau gweithredu tuag at y Nodau Datblygu Cynaliadwy. Rhanbarthau dros Ddatblygu Cynaliadwy yw llais byd-eang llywodraethau rhanbarthol ym meysydd bioamrywiaeth, newid yn yr hinsawdd a datblygu cynaliadwy. Mae pob un o'n rhanbarthau sy'n cael blaenoriaeth yn aelodau o'r rhwydwaith hwn ac rydym yn aelod o'r Grŵp Llywio.
- **Rhwydwaith Llywodraethau'r Economi Llesiant** – Ym mis Ebrill 2020, ymunodd Cymru â Rhwydwaith Llywodraethau'r Economi Llesiant, a byddwn yn gweithio gyda'r Alban, Gwlad yr Iâ, y Ffindir a Seland Newydd sydd i gyd ag uchelgais gyffredin i gyflawni a gwella llesiant drwy eu dull economaidd.
- **Rhwydwaith i Hyrwyddo Amrywiaeth Ieithyddol (NPLD)** – Mae Gwlad y Basg a Llydaw yn cymryd rhan, ac roedd Cymru'n aelod sylfaenol ac yn is-gadeirydd ar hyn o bryd. Mae'r rhwydwaith yn hybu ymwybyddiaeth o bwysigrwydd amrywiaeth ieithyddol ac yn hwyluso rhannu dysgu ar bolisi ac ymarfer iaith. Mae Mentrau Iaith, y Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn ogystal â phedair o brifysgolion Cymru yn aelodau cyswllt.
- **Rhwydwaith Awdurdodau Iechyd Rhanbarthol a Lleol Ewropeaidd  (EUREGHA)** – Mae Fflandrys hefyd yn weithgar yn y Rhwydwaith, sydd wedi'i gydleoli yn Nhŷ Cymru ym Mrwsel gan mai Cymru yw'r cadeirydd presennol. Mae EurEGHA yn hyrwyddo cydweithredu a chyfnewid rhwng ei aelodau gyda'r nod o wella polisi iechyd yn Ewrop.

Byddwn yn parhau i gymryd rhan weithredol fel aelod o'r Grŵp Hinsawdd, Cynhadledd y Rhanbarthau Morol Ymylol (CPMR), REGAL (bwyd) a Sefydliad Diogelwch Seiber Ewrop. Mae Cymru yn un o lofnodwyr sefydlu Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth Dan2 y Grŵp Hinsawdd, ac wedi bod yn aelod gweithgar o Grŵp Llywio Under2 ers y cychwyn. Roedd Llywodraeth Cymru yn falch o dderbyn gwahoddiad i'r Grŵp Llywio unwaith eto yn 2020 sydd yn tanlinellu ein harweinyddiaeth ryngwladol a'n hymrwymiad i'r Grŵp. Gyda dros 200 o lywodraethau sy'n cynrychioli mwy na 1.3 biliwn o bobl, a bron i 43% o'r economi fyd-eang, mae Cynghrair Dan2 wedi darparu llais cryf a llwyfan i lywodraethau is-genedlaethol weithredu ar y cyd.

Mae arweinyddiaeth a chyfranogiad gweithredol mewn rhwydweithiau hefyd yn rhoi cyfle i Gymru ddatblygu llais penodol, hyrwyddo brand Cymru, a thynnu sylw at benodolrwydd a rhagoriaeth Cymru. Mae'r rhwydweithiau hyn yn galluogi casglu a rhannu gwybodaeth yn ogystal â chynnig cyfleoedd broceriaeth ar gyfer rhaglenni Ewropeaidd. Mae Addysg Uwch Cymru Brwsel a Llywodraeth Cymru hefyd wedi gweithio i gryfhau ymgysylltiad prifysgolion Cymru â'r Llwyfannau Technoleg Ewropeaidd dylanwadol sy'n gweithredu ledled ystod o feysydd thematig. Mae pwysigrwydd cynnal cysylltiadau a rhwydweithiau sy'n bodoli eisoes a datblygu rhai newydd yn flaenoriaeth allweddol yng nghynllun strategol Addysg Uwch Cymru Brwsel ar ôl Brexit.

# Rhwydweithiau Ewropeaidd a Rhyngwladol

Mae sefydliadau yng Nghymru hefyd yn cymryd rhan mewn amrywiaeth eang o rwydweithiau Ewropeaidd a rhyngwladol. Mae enghreifftiau yn cynnwys:

- Rhwydwaith Sefydliadau dros Genedlaethau'r Dyfodol, y mae Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn ei gadeirio;
- Rhwydwaith Eurocities o ddinasoedd mawr Ewrop, y mae Caerdydd yn aelod ohono;
- Lobi Menywod Ewrop gyda chyfranogiad gan Rwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru; ac
- Addysg Uwch Cymru Brwsel, sy'n cefnogi prifysgolion Cymru yn eu hymgysylltiad Ewropeaidd drwy fod yn aelod o rwydweithiau fel Rhwydwaith Ymchwil ac Arloesi Rhanbarthau Ewrop a rhwydwaith UnILiON o swyddfeydd prifysgolion ym Mrwsel.

**Ein Gweithredoedd**
**(Tymor byr – blwyddyn)**

- Ystyried y rhwydweithiau Rhyngwladol y mae Llywodraeth Cymru yn cymryd rhan ynddynt yn wyneb perthynas y DU a'r UE yn y dyfodol.

**(Tymor canolig – 2021-25)**

- Darparu cymorth ar gyfer ymgysylltiad sefydliadau Cymru mewn rhwydweithiau rhyngwladol pan fo manteision amlwg i Gymru a chysondeb â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru.
- Llywodraeth Cymru i gynnal swyddi arwain mewn o leiaf ddau rwydwaith rhyngwladol.
- Creu rhwydwaith rhyngwladol newydd o asiantaethau diwylliannol rhanbarthol sy'n cynnwys ein holl ranbarthau sy'n cael blaenoriaeth i ddechrau.



# Casgliad

Nid ydym yn tanbrisio'r effaith gymdeithasol, ariannol ac economaidd enfawr a achosir gan argyfwng COVID-19 a'r newidiadau nad ydynt eto wedi'u teimlo'n llawn o ganlyniad. Fodd bynnag, gwyddom fod cydweithredu rhyngwladol a rhyngranbarthol yn hanfodol yn ystod cyfnod COVID-19 ac mae angen i ni gefnogi ein gilydd ar y daith i adferiad. Rydym hefyd yn rhagweld y bydd y ffyrdd arloesol a chreadigol o weithio'n ddigidol yn ystod y pandemig yn gorfodi a chreu angen am ffyrdd newydd o gysylltu'n rhyngwladol.

Mae ansicrwydd o hyd ynghylch dyfodol perthynas y DU â'r UE, er y dylai hyn fod wedi'i ddatrys yn ddigonol erbyn diwedd 2020. Mae trefniadau symudedd gyda'r UE27 yn aneglur, ac mae'r un peth yn wir am ein mynediad i raglenni Ewropeaidd. Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, erys risg resymol o adael y cyfnod pontio heb gytundeb â'r UE.

Rhaid i ni gryfhau ein hymdrechion i ddod o hyd i ffyrdd o ymgysylltu â'r rhanbarthau a'r rhwydweithiau sy'n cael blaenoriaeth, gan ddefnyddio'r holl fecanweithiau sy'n bodoli, megis Score Cymru, i gefnogi llawer o'r gweithgareddau ymchwil ac arloesi a amlinellir yn y papur, neu dreialu ffyrdd newydd o weithio fel yr alwad ar y cyd am brosiectau gyda Québec. Yn y tymor hwy, mae ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar fframwaith rhanbarthol Cymru[4] yn y dyfodol yn cynnig mwy o rôl ar gyfer gweithredu rhyngwladol a thrawsffiniol, a allai gynnwys cefnogi cydweithredu â rhanbarthau, rhwydweithiau a gwledydd sy'n cael blaenoriaeth a byddwn yn manteisio ar unrhyw gyfleoedd a gynigir drwy sianelau ariannu Llywodraeth y DU.

Mae'r dirwedd yn heriol, ond fel cenedl Ewropeaidd, mae ein hymrwymiad i barhau i gydweithredu â'n partneriaid yn Ewrop a thu hwnt yn ddi-sigl. Rydym wedi meithrin perthnasoedd cryf a chynaliadwy a fydd yn ein helpu i gyflawni uchelgeisiau craidd ein Strategaeth Ryngwladol. Nid dyma'r amser i gamu'n ôl ac edrych ar i mewn – mae angen i ni barhau i fod yn genedl sy'n edrych tuag allan ac sy'n gyfrifol yn fyd-eang.

[4] llyw.cymru/fframwaith-buddsoddi-rhanbarthol-yng-nghymru